

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 6ed o Hydref 2022 yn ystafell Myrddin, Neuadd Chwilog a drwy Zoom yn brydlon am 7.30 o'r gloch.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn hefyd o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol : Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Rhys Tudur, Tegid Jones, Aled Davies, Aled Lloyd Evans, Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Darren Morley, Delyth Parry, Dylan Thomas, a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Sian Angharad Parry, Gareth O.Davies, Sion Aled Jones a Miriam Williams.
2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod** y Cyngor gynhaliwyd ar 8fed o Fedi 2022. Y Cadeirydd yn llofnodi ei bod yn gywir.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Medi 2022 gan y Cadeirydd.

4. **Datgan buddiant personol** - Cynghorydd Angela Williams, 9c cais cynllunio tir ger Lleifior, Llanybi oherwydd ei bod yn gymydog.

5. **Materion gan Un Llais Cymru**

a) **Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref** – yn son fod angen gwneud Adroddiadau Blynyddol, Cynllun Hyfforddi, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Pwer Cymhwysedd cyffredinol.

Trefnwyd i gynnal cyfarfod ar 24.10.2022 yn Neuadd Chwilog i drafod rhain. Y Clerc wedi gwneud drafft o Adroddiad Blynyddol am y cyfnod rhwng 01.04.2021-31.03.2022 i'w roi ar ein gwefan, ac angen ei awdurdodi. Mae angen gwneud Cynllun Hyfforddi erbyn 05.11.2022, a thrafod ein polisiau i weld os angen gwneud unrhyw newidiadau neu ei derbyn fel ag y maent.

6. **Datblygiadau 'Un Blaned' Llywodraeth Cymru'**- derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones, a gofynwyd i'r Clerc ofyn wrth Cyngor Gwynedd os ydynt wedi derbyn ceisiadau i ganiatau datblygiadau yng nghefn gwlad sy'n deillio yn uniongyrchol o'r ddogfen gyhoeddwyd yn 2012 sef "Datblygiadau Un Blaned Hydref 2012", sef 'Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru' a baratowyd i Lywodraeth Cymru gan Land Use Consultants, 14 Great George Street, Bristol BS1 5RH a Cangen Polisi Cynllunio, Yr Is-Adran Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Caerdydd CF10 3NQ ddylid wneud. Os derbyniwyd ceisiadau dylid gofyn faint o'r rhain oedd o fewn cylch gorchwyl Cyngor Cymuned Llanystumdwy. (Tybed os mai canlyniad o hyn sy'n digwydd yn y coedwigoedd yn deillio?).

Mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan yr 'One Planet Council' tua 2018 nodwyd - "There are at present 23 OPDs in Wales with many more in the pipeline.." (OPDs = One Planet Developments) ond nodir mai yn Sir Benfro yr oedd y twf mwyaf hyd hynny. (Nid oes adroddiad diweddarach wedi ei gyhoeddi yn dilyn y cyfnod clo.)

Mae perchennog tir lleol wedi cael cais i werthu 10 erw o'i dir i wr o Loegr er mwyn iddo allu manteisio ar yr hyn a ganiateir o fewn terfynau "OPD" i greu Cynllun Busnes (a thrigfan o fath) fel y byddai yn hunangynhaliol am 5 neu 10 mlynedd ar ol symud yma i fyw. **Clerc am anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.**

7. **Cynllun Peilot ardal Dwyfor** – cais gan Catrin Huws, Uwch Swyddog Galluogi Tai Cymunedol, Grwp Cynefin, mewn partneriaeth hefo Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Hwyluswyr Tai Gwledig a Tai Teg eisiau cychwyn sgwrs ac egluro'r rôl a phwrpas y cynllun. Eisiau adnabod beth yw anghenion tai cymunedau Dwyfor, a chael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa dai yn ein cymuned. **Mae Steffan Smith (Rheolwr y Cynllun) a Catrin Huws wedi cynnig dod i'r cyfarfod nesaf ar 03.11.2022 i drafod y cynllun. Derbyn.**

8. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith trafndiaeth a priffyrdd mis Hydref 2022

Gwaith ail wynebu Pensarn, Lon Cwm	Ffordd yn cau rhwng Efail Pensarn, hyd at Ysgubor Fawr	28.09.22 hyd at 5 diwrnod
---	---	----------------------------------

9. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Rhif Cais:C22/0866/41/RC - Gernant Bach, Llangybi,**

Diddymu Cytundeb 106 sy'n cyfyngu defnydd yr adeilad fel anecs i eiddo Y Gernant. **Cefnogi.**

b) **Rhif Cais:C22/0792/41/DT - Tir ger Glandwr, , Llangybi**

Codi adeilad allanol pren, i gynnwys cysgodfan parcio a storfa i bwrpas domestig ac amaethyddol ac ymestyn cwrtil. **Dim sylw.**

c) **Rhif Cais:C22/0801/41/AM - Tir ger Lleifior, Llangybi**

Cais amlinellol i godi tŷ newydd deulawr a mynedfa gerbydol. **Cefnogi, ond mae angen cymryd i ystyriaeth fod giat yn mynd i lwybr yng nghefn y safle i Bont y Merched.**

ch) **Rhif Cais:C22/0886/41/LL - Cabin Wood, Llanystumdwy, LL52 0SU**

Addasiadau i fynedfa a gosod ffens 1.8 medr o uchel. **Gwrthod, oherwydd ei fod ar lon brysur, ei fod yn ol-gais cynllunio, a pham fod angen ffens uchel yno?**

10. **Prosiect Bioamrywiaeth Ymylon Ffyrdd Gwynedd – ger Afonwen ac Hafan y Mór**

Mr Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Adran Amgylchedd y Cyngor sydd yn cydlynu'r Bartneriaeth Natur Leol o fewn y sir.

Maent wedi sicrhau cyllideb o dan gynllun 'Llefydd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi yn isadeiledd rhai o'r safleoedd tir sydd yn mherchnogaeth y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd i natur Gwynedd.

Mae nifer fawr o ymylon ffyrdd Gwynedd o dan berchnogaeth y Cyngor ac, yn y gorffennol, mae'r ymylon yma wedi cael eu cynnal heb fawr o ystyriaeth i'r fioamrywiaeth a oedd yn bodoli ynddynt. Yn dilyn gwaith ymgynghorol, ei bwriad dros yr wythnosau nesaf yw buddsoddi canran o'r arian uchod mewn wyth lleoliad o fewn y Sir (gan gynnwys dau safle o fewn Cyngor Llanystumdwy, sef rhwng Cricieth a Phwllheli ar gyfer y gwaith, sef ger Afonwen a Hafan y Mór ar yr A497.

Bydd y gwaith yn cychwyn yn ystod y mis, a bydd y gwaith yma yn cael ei gynnal gan gwmni Kehoe Countryside Services mewn cydweithrediad efo swyddogion y Cyngor. **Derbyn.**

Materion yn y gymuned.

11. Llanystumdwy

a) **Maen y Wern** - coeden dderwen sydd wedi marw yma ar dir y Cyngor Cymuned ger y Bedd nid onnen - Aled Roberts, Swyddog Cefnogol Clwyf Gwywiad yr Onnen wedi cadarnhau mai cyfrifoldeb perchennog y tir yw hyn. Fe wnaeth y Clerc gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd, a dyma oedd ei ateb hwythau hefyd. **Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Richard Hubbard, Ty'n Llwyn a cadarnhaodd fod angen torri'r goeden, oherwydd y gallai ddisgyn, ac mae am anfon pris. Gofynwyd i'r Clerc ofyn am ddau bris arall, sef gan Richard Pearson Gwasanaethau Coed ac Ian Williams Gwasanaeth Coed Llŷn.**

12. Rhoslan

- a) **Dolwar, Rhoslan**- ymholiad fod 'Pod' sylweddol wedi cael ei osod yn yr ardd, a'i fod yn cael ei osod i ymwelwyr. Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Cynllunio i holi os oes angen cais cynllunio am adeilad coedyn fel hyn - ynteu nid oes angen caniatâd, ac yn disgwyl ateb. Y Clerc wedi derbyn ebost gan Adran Cynllunio ar 03.10.2022 yn dweud ei bod yn edrych mewn i'r cais o dan rhif achos G22/0203: Hawl cynllunio i osod 'POD gwyliau' mewn gardd.
- b) **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** - y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan y trydanwr y bydd wedi gosod y ddau diffib o fewn y dyddiau nesaf.
- **Yn y broses o gael enwau** prif warchgeidwad ac enw wrth gefn ar gyfer y ddau.
 - Wedyn bydd angen trefnu sesiynau ymwybyddiaeth sgiliau CPR/ diffibrilio ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â'r sefydliad/grwp. Manylion cyswllt ar <https://llyw.cymru/achub-bywyd-cymru>
 - Ar ol gosod y 2 gabinet gellir gysylltu hefo achubbywydcymru@wales.nhs.uk a bydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn trefnu i ddarparu y 2 diffib i ni.
 - Ar ol derbyn y 2 diffib bydd angen ei cofrestru ar 'Y Circuit' ar www.thecircuit.uk gan nodi y gwarchgeidwad sydd wedi ei enwebu. Bydd yna angen danfon yr ebost sy'n cadarnhau fod hyn wedi ei wneud at achubbywydcymru@wales.nhs.uk

13. Chwilog

Uwchraddio Cae Chwarae Chwilog

Y Cynghorydd Rhys Tudur wedi derbyn cadarnhâd fod criw o rieni yn fodlon cyfarfod i drafod y bwriad o sefydlu pwyllgor yn Chwilog, a bydd angen trefnu dyddiad ac amser fis Hydref. Gobeithio bydd hyn yn cael ei drefnu nos Iau, 10.11.2022 yn Neuadd Chwilog am 7:30 a gwnaiff y Clerc roi poster o flaen y Neuadd.

14. **Diffibriliwr Chwilog** - mae'r diffibriliwr sydd yn y Neuadd wedi ei osod yn nol yn y cabinet erbyn hyn. Trafodwyd y posibilrwydd o osod un arall rhywle yn y pentref oherwydd fod y pentref yn cynyddu, a gwnaiff y Clerc holi am y grant o £300.00 sydd i'w gael drwy tuag at y pris o brynu un newydd.

15. Pencaenewydd/Sardis

16. Llangybi

a) **Cae chwarae Troed y Garn, Llangybi** - wedi derbyn yr adroddiad blynyddol gan 'Fields in Trust', (dyddiedig 22.09.22). Y Clerc wedi ei anfon at bawb er mwyn trafod ei gynnwys ar y noson, drwy gadarnhau fod yr offer yn gymwys hefo rheolau diogelwch. **Penderfynwyd gadael y materion tan y gwanwyn.**

b) **Arwyddbost** - nid oes arwyddbost i gyfarwyddo teithwyr i'r tri cyfeiriad ar groesffordd Groeslon 'Refail yn Llangybi ers tro. Y Clerc wedi anfon cais at Cyngor Gwynedd i ofyn am gael arwyddbost yno.

17. **Materion Ariannol**

Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd o flaen y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 05.10.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Gwnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi yn ystod y cyfarfod cyn ei talu.

Cynhaliwyd cyfarfod Busnes/Cyllid o flaen y prif gyfarfod a chynigiwyd codi'r praesept o £18.360.00 i £19,000.00 o'r 01.04.2023 ymlaen, oherwydd chwyddiant. Caiff hyn ei drafod eto.

18. **Enwau pontydd**

Derbyniwyd cais y dylid trafod ymhellach enwau rhai pontydd nad oedd wedi cael ei cynnwys llynedd:

- Pont y Felin (sef Pont Melin Plas Du)
- Pont Gaerddu Bach
- Pont Ffridd Lwyd (Pont Afonwen) ar y briffordd
- Pont Llanystumdwy
- Pont Rhydygwystl
- Pont y Felin, Chwilog
- Pont yr Inn, Chwilog-(byddai Garej Pandy ger hon cyn symud i Benygroes, Llanystumdwy)
- Pont Ty'n Gors, ger Ty'n Gors, Llanarmon
- Pont Glandwr (ger Stesion Llangybi)

Trafodwyd hyn hefyd yn y cyfarfod cyllid/busnes o flaen y prif gyfarfod, a chytunwyd y dylid rhoi yr enwau uchod hefyd ar y pontydd yn yr ardal.

19. **Cais am arian i Fynwent Chwilog, - glanhau cerrig beddi** - ac ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd.

Ni dderbyniwyd arian grant, ac fe drafodwyd y mater yn y cyfarfod busnes o flaen y prif gyfarfod yma hefyd. Penderfynwyd i beidio cyfrannu arian i wneud hyn rwan, ac i hysbysu Pwyllgor Mynwent Chwilog fod croeso iddynt ofyn am arian ddechrau'r flwyddyn yn ol yr arfer.

20. **Cof Eifionydd** - Cynghorydd Rhys Tudur wedi cyfarfod efo'r Ffynnon, a maent yn fodlon rhoi pob cyfrol o'r Ffynnon i ni cyn belled ag ein bod yn disgwyl 3 mis wedi cyhoeddi'r rhai newydd. Mae'r Cynghorydd Miriam Williams wedi cadarnhau ei bod yn bosib cynnal cyfarfodydd i drafod hyn yn Nhý Newydd, Llanystumdwy. Yr enwau a nodwyd a fyddai a diddordeb mewn cyfrannu tuag at ddatblygu'r Cof ar y noson, oedd Cynghorydd Aled Davies, Tegid Jones, Miriam Williams, Dylan Fon Thomas, Mrs Margaret Hughes a'r Clerc, ac mae'n siwr y byddai mwy hefyd.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Rhys Tudur ddewis dyddiad i gynnal cyfarfod.

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Cyngor Gwynedd 007950L0020055Q	Costau etholiad Cyngor Cymuned 2022	<u>428.00</u>		<u>428.00</u>	<u>428.00</u>
Criccieth Cleaning Ltd. (3230)	Glanhau lochesi bws (£182.50 x 3) Mawrth 2022 Mehfin 2022 Medi 2022	<u>547.50</u>	<u>109.50</u>	<u>657.00</u>	<u>657.00</u>

22. Cyflog mis Medi 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2022 35 awr y mis x £11.50 = £402.50	402.50 = Llai treth £80.60 = <u>£321.90</u>	<u>321.90</u>	<u>321.90</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2022	403.00 x 20% = <u>£80.60</u>	<u>80.60</u>	<u>80.60</u>
Costau Clerc mis Medi 2022	<u>£30.85</u>	<u>30.85</u>	<u>30.85</u>

Materion hwyr

23. Mynwent Eglwys Llanystumdwy - y Clerc wedi derbyn e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn pryderu am gyflwr y fynwent, a'i fod angen ei dorri a'i farbio. Nid y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am ofalu amdano, ond Esgobaeth Bangor, ac erbyn y cyfarfod roedd y lle wedi cael ei dorri.

24. Rhandiroedd Menter y Plu - derbyniwyd cais fod yn Cyngor Cymuned yn anfon llythyr at y Plu yn cefnogi y gwaith o greu rhandiroedd yno, ac y byddai yn gwneud gwahaniaeth i drigolion y gymuned. Clerc am wneud hynny.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyllid/Busnes am **6:45 y.h.** o flaen y prif gyfarfod ar 06.10.2022, yn Neuadd Chwilog ac hefyd drwy zoom.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Iau **03.11.2022.**

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.